

Yr Amgylchedd

Adroddiad Monitro Brexit

13 Gorffennaf - 14 Medi 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Tŷ Hywel

Bae Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6317**

E-bost: **Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru**

Twitter: **@SeneddYmchwil**

Blog: **SeneddYmchwil.blog**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Yr Amgylchedd

Adroddiad Monitro Brexit

13 Gorffennaf - 14 Medi 2018

Awduron:

Katy Orford, Elfyn Henderson, Chloe Corbyn, Lorna Scurlock, Francesca Howorth a Siân Davies

Cyhoeddwyd: 24 Medi 2018

Trosolwg o'r papur:

Bydd Brexit yn dod â newidiadau sylweddol ym maes polisi amgylcheddol. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi paratoi'r adroddiad monitro hwn ar gyfer Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad. Mae'n cynnig diweddarriad ar ddatblygiadau Brexit diweddar sy'n bwysig o ran polisi amgylcheddol yng Nghymru.



Contents

1. Cyflwyniad	1
2. Trafodaethau rhwng y DU a'r UE.....	2
3. Camau gweithredu eraill gan Lywodraeth y DU	8
4. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru	12
5. Camau gweithredu Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon	16
6. Camau gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig	17
7. Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol.....	21
8. Camau gweithredu gan Senedd y DU.....	22
9. Ffynonellau allweddol eraill	26

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig diweddariad ar ddatblygiadau diweddar yn ymwneud â Brexit ym maes polisi amgylcheddol. Fe'i paratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gyfer **Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** y Cynulliad ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o 13 Gorffennaf tan 14 Medi 2018. Mae'r **adroddiad blaenorol** yn cwmpasu 19 Mai i 12 Gorffennaf.

Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg o'r trafodaethau rhwng y DU a'r UE a datblygiadau o fewn y DU sy'n effeithio ar y maes polisi amgylcheddol. Mae'n canolbwytio ar weithgareddau:

- Sefydliadau'r UE;
- Llywodraethau a'r deddfwrfeydd y DU; ac
- Yn darparu ffynonellau allweddol eraill o wybodaeth.

Os hoffech drosolwg llawn o'r trafodaethau yn ymwneud ag ymadawriad y DU â'r UE, gweler **Adroddiadau Monitro Brexit a Diweddariadau Brexit** cyffredinol y Gwasanaeth Ymchwil, sy'n cael eu paratoi ar gyfer **Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol** y Cynulliad.

2. Trafodaethau rhwng y DU a'r UE

Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Phapur Gwyn ar y **Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol**. Mae hyn yn dilyn **Cytundeb Chequers**. Oherwydd adeg ei gyhoeddi, dim ond yn gryno y cyfeiriwyd at y Papur Gwyn yn yr **Adroddiad Monitro Brexit blaenorol**, felly darperir mwy o fanylion yma. Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi ysgrifennu **cyfres o erthyglau blog ar y Papur Gwyn**.

Un o brif nodweddion y Papur Gwyn yw'r bartneriaeth economaidd arfaethedig rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae creu ardal masnach rydd newydd ar gyfer nwyddau, gan gynnwys nwyddau bwyd-amaeth, yn allweddol i'r bartneriaeth economaidd.

Mae'r cynigion yn cynnwys llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau bwyd-amaeth sy'n canolbwytio'n bennaf ar reolau y mae'n rhaid eu gwirio wrth y ffin. Mae'r Papur Gwyn yn dweud y byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU wneud ymrwymiad ymlaen llaw i gysoni rheolau â'r UE. Byddai'r DU yn ceisio cymryd rhan ym mhwyllgorau technegol perthnasol yr UE sydd â rhan yn y gwaith o lunio a gweithredu rheolau sy'n rhan o'r llyfr rheolau cyffredin, er na fyddai ganddi hawliau pleidleisio.

Mae elfennau eraill o'r ardal masnach rydd newydd ar gyfer nwyddau yn cynnwys:

- Dim tariffau ar nwyddau bwyd-amaeth a dim cwotâu na rheolau o ran gofynion tarddiad ar gyfer nwyddau a fasnechir rhwng y DU a'r UE.
- Trefniad Tollau Hwylusedig (FCA) newydd lle byddai'r DU yn codi tariffau'r DU am nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU ar gyfer marchnad y DU a thariffau'r UE am nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU ond sydd wedi'u pennu ar gyfer marchnad yr UE; a
- Threfniadau cydweithredu â'r UE i ganiatáu goruchwylio'r farchnad i sicrhau bod rheolau'n cael eu dilyn yn y ddwy farchnad. Byddai hyn yn gwneud mynediad y DU at systemau cyfathrebu presennol yr UE, fel y **System Rhybudd Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (RASFF)** yn ofynnol.

Mae cynigion eraill yn y Papur Gwyn yn cynnwys:

- Cydnabyddiaeth o gymwysterau proffesiynol ar y ddwy ochr, gan alluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gwasanaethau yn y DU a'r UE. Gallai hyn

fod yn arbennig o arwyddocaol i'r sector milfeddygol gan fod tua chwarter y milfeddygon yng Nghymru yn wladolion yr UE nad ydynt o'r DU, gan gynnwys mwyafrif y rheini sy'n gyfrifol am fonitro hylendid cig mewn lladd-dai.

- Cyfranogiad y DU mewn asiantaethau UE allweddol sy'n chwarae rhan sylweddol yn y broses o roi nwyddau ar y farchnad (fodd bynnag, ni sonnir am **Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA)** yn y papur).
- Cytuno i fabwysiadu'r un system a rheolau ar gymorth gwladwriaethol, a chydweithrediad agos o ran rheoleiddio cystadleuaeth.
- Ymrwymiad i gynnal safonau gofynnol o ran yr amgylchedd, y newid yn yr hinsawdd ac amddiffyniadau cymdeithasol ac yn benodol cymal dim atchweliad ar safonau amgylcheddol a safonau llafur domestig.
- Gallu'r DU i ddilyn polisi masnach annibynnol y tu allan i'r UE lle gallai bennu ei thariffau ei hun ond wedi ei chyfyngu gan y llyfr rheolau cyffredin o ran lle y gallai ganiatáu safonau gwahanol i'r UE o ran cynnrych.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi y bydd y DU yn sefydlu ei chynllun Dangosyddion Daearyddol ei hun (a adnabyddir hefyd fel enwau bwyd a ddiogelir) ar ôl Brexit a fydd yn agored i geisiadau o'r tu mewn a'r tu allan i'r DU. Mae gan Gymru 15 o gynhyrchion sydd wedi eu diogelu gan Dangosyddion Daearyddol ar hyn o bryd, ac mae'r Papur Gwyn yn cydnabod arwyddocâd penodol cig oen a chig eidion o Gymru.

Ar 20 Gorffennaf, cyhoed**dodd Michel Barnier, Prif Draffodwr yr UE, ddatganiad i'r wasg** yn amlinellu ei ymateb cychwynnol i'r Papur Gwyn. **Adroddodd Politico** fod ei sylwadau, fwy neu lai wedi rhoi terfyn ar y cynigion ar gyfer ardal masnach rydd ar gyfer nwyddau a threfniad tollau newydd.

Mae datganiadau pellach (**31 Awst a 21 Awst**), erthygl barn (**2 Awst**) ac arraith (**26 Gorffennaf**) gan Michel Barnier wedi cyflwyno safbwyt y Comisiwn Ewropeaidd.

Yn ei **araoh 26 Gorffennaf**, dywedodd Michel Barnier bod materion pwysig i'w trafod a chwestiynau i'w hateb i ganfod tir cyffredin ar y berthynas economaidd yn y dyfodol. Yn yr **erthygl barn ar 2 Awst**, dywedodd:

... some UK proposals would undermine our Single Market which is one of the EU's biggest achievements. The UK wants to keep free movement of goods between us, but not of people and services. And it proposes to apply EU customs rules without being part of the EU's legal order. Thus, the UK wants to take back sovereignty and control of its own laws, which we respect, but it cannot ask the EU to lose control of its borders and laws.

Mynegodd Michel Barnier bryder hefyd am Ddangosyddion Daearyddol gan ddweud yn y **datganiad ar 31 Awst** na ddylai Brexit arwain at golli hawliau eiddo deallusol presennol a bod yn rhaid egluro dyfodol Dangosyddion Daearyddol yn y Cytundeb Tynnu'n Ôl.

Ynni a'r newid yn yr hinsawdd:

Yn ei **Papur Gwyn** (y cyfeiriwyd ato eisoes), mae Llywodraeth y DU yn cynnig y bydd ei chynlluniau yn y dyfodol yn darparu ar gyfer cydweithredu economaidd-gymdeithasol mewn meysydd lle ceir cysylltiad agos rhwng economïau'r DU ac UE, gan gynnwys ynni. Mae'n nodi dull arfaethedig Llywodraeth y DU mewn nifer o feysydd:

- Hwyluso parhad y **Farchnad Drydan Sengl (SEM)** rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon;
- Ceisio cydweithrediad ynni eang, gan gynnwys trefniadau ar gyfer masnachu trydan a nwy, cydweithredu ag asiantaethau a chyrff yr UE, a rhannu data i hwyluso gweithrediadau'r farchnad; ac
- Awydd i archwilio opsiynau ar gyfer y berthynas ynni gyda'r UE yn y dyfodol, gan gynnwys gadael neu aros yn y **Farchnad Ynni Fewnol (IEM)**.

O ran pŵer niwclear, dywed y Papur Gwyn y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio sicrhau cysylltiad agos gydag **Euratom**, ac y bydd hon yn berthynas newydd sy'n fwy cynhwysfawr ac eang nag unrhyw gytundeb presennol rhwng Euratom a thrydedd wlad. Mae'n dweud y byddai perthynas o'r fath yn helpu i sicrhau bod sefyllfa'r DU fel gwladwriaeth niwclear sifil flaenllaw a chyfrifol yn cael ei chynnal. Mae'n awgrymu y byddai hyn o'r un budd i'r DU a Chymuned Euratom, oherwydd buddiant cyffredin mewn sicrhau gwydnwch a diogelwch ynni yn Ewrop.

Pysgodfeydd

Mae cynigion **Papur Gwyn** Llywodraeth y DU ar gyfer ardal fasnach rydd newydd ar gyfer nwyddau sy'n cynnwys nwyddau bwyd-amaeth hefyd yn cynnwys cynhyrchion pysgodfeydd. Mae'r Papur Gwyn yn ail-bwysleisio safbwyt Llywodraeth y DU, sef:

On leaving the EU, the UK will become an independent coastal state under the UN Convention on the Law of the Sea (UNCLOS). As a result, the UK will control access to fish in its waters, both in territorial seas and the Exclusive Economic Zone (EEZ).

Mae'r Papur Gwyn yn amlygu ymrwymiad Llywodraeth y DU i weithio'n agos gydag Aelod-wladwriaethau a gwladrwaethau arfordirol eraill i sicrhau rheolaeth gynaliadwy o stociau a rennir a'r amgylchedd morol ehangach. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r papur yn cynnig:

- Cytuno ar fecanwaith ar gyfer trafodaethau blynnyddol ar fynediad at ddyfroedd a chyfleoedd pysgota; a
- Hybu pysgodfeydd cynaliadwy i fodloni ymrwymiadau rhyngwladol fel nodau datblygu cynaliadwy.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi bod mynediad at ddŵr a chyfleoedd pysgota ar wahân i fynediad at farchnadoedd ar gyfer pysgod a chynhyrchion pysgod. Ail-bwysleisiwyd y safbwyt hwn ar 17 Gorffennaf gan y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd, George Eustice, mewn **tystiolaeth i Bwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin**, pan ddywedodd:

... negotiations on fisheries access and fisheries management as being one strand under an association agreement, and trade as being an entirely separate one. We do not see the two as being connected.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd unrhyw benderfyniadau am roi mynediad at ddyfroedd y DU i longau o'r UE, neu unrhyw wladwriaethau arfordirol eraill, yn fater i'w drafod. Mae'n cynnig y dylai'r DU, yr UE a gwladrwaethau arfordirol eraill â buddiant gytuno i drafodaethau blynnyddol ar hawliau mynediad a chyfleoedd pysgota i fflydau'r DU, yr UE ac gwladrwaethau arfordirol.

Mae'r Papur Gwyn yn nodi y bydd y DU yn ceisio symud oddi wrth egwyddor sefydlogrwydd cymharol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) cyfredol, lle mae Aelod-wladwriaethau'r UE yn derbyn cyfran sefydlog o gyfleoedd pysgota (cwota) yn seiliedig ar gofnodion dal hanesyddol, tuag at ddull mwy gwyddonol o bennu terfynau dal (Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir neu TAC) ar gyfer y DU. Bydd TACs yn cael eu dyrannu i'r gweinyddiaethau datganoledig wedyn gan ddefnyddio cofnodion dal hanesyddol o dan **Gytundeb Concordat** 2012.

Yn ogystal â hyn, mae'r Papur Gwyn yn nodi y byddai unrhyw fynediad at ddyfroedd y DU i longau nad ydynt wedi'u cofrestru yn y DU yn amodol ar gydymffurfio â'r un gofynion â llongau'r DU, gan gynnwys arferion cynaliadwy.

Mae'r Papur Gwyn yn dweud bod y DU yn hyrwyddwr datblygu cynaliadwy a chadwraeth forol. Yn ychwanegol at ymrwymiadau o dan **Nod Datblygu Cynaliadwy 14 y Cenhedloedd Unedig**, mae'n dweud y bydd Llywodraeth y DU yn ceisio dangos hyn drwy:

continuing to apply the maximum sustainable yield (MSY) principle; continuing to work with European partners to regulate fishing and to set harvest rates that restore and maintain fish stock; ... remaining fully committed to ending the wasteful discarding of fish; ... publishing an annual assessment on the state of stocks of interest and our approach to setting fishing opportunities for the year ahead. If particular stocks are becoming depleted, the Government will work with all interested parties to draw up and implement recovery plans; and ... working closely with the devolved administrations, Crown Dependencies and Overseas Territories who are responsible for conservation measures for stocks concentrated in their territorial waters.

Gwarchod natur

Mae'r **Papur Gwyn** yn cynnwys sawl **ystyriaeth amgylcheddol**. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynnig y byddai Llywodraeth y DU yn ymrwymo i safonau amgylcheddol rheoleiddiol uchel trwy ofyniad dim atchwelliad mewn cytuniad ar y berthynas gyda'r UE yn y dyfodol.
- Cynnig ar gyfer partneriaeth economaidd a fyddai'n cynnwys llyfr rheolau cyffredin ar gyfer nwyddau, gan gynnwys bwyd-amaeth. Byddai hyn yn cwmpasu'r rheolau hynny sydd eu hangen ar gyfer masnach ddiffwdan wrth y ffin yn unig. Mae hyn yn awgrymu y byddai'r DU wedi ei rhwymo i ddim ond rhai o'r un safonau amgylcheddol â'r UE o ran nwyddau.
- Ymrwymiadau i gynnal cydweithrediad amgylcheddol rhyngwladol. Mae'n nodi y dylai fod ymrwymiad cyfatebol i gydweithredu amgylcheddol parhaus hefyd, gan gynnwys y fforymau rhyngwladol, i ddatrys heriau byd-eang cyffredin.
- Cafwyd dadl yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Gorffennaf ar **y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol**, ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn. O ran diogelu'r amgylchedd, dywedodd Robin Walker, Is-ysgrifennydd Gwladol yr Adran Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd:

High standards in food and product safety are something all our constituents value. As we saw around debates on the TTIP negotiations, our constituents are unlikely to want any trade deal or arrangement that lowers standards.

Gwnaeth Michel Barnier ddatganiad mewn ymateb i'r Papur Gwyn ar 20 Gorffennaf. Dywedodd bod sawl elfen yn agor y ffordd ar gyfer trafodaeth adeiladol, gan gynnwys ymrwymiadau'n ymwneud â safonau amgylcheddol. Fodd bynnag, cododd bryderon ynglŷn â cham-aliniad â safonau bwyd amaeth yr UE, er enghraifft, ar GMO neu blaladdwyr.

3. Camau gweithredu eraill gan Lywodraeth y DU

Ansawdd aer

Mewn arraith yn yr Uwchgynhadledd Cerbydau Dim Allyriadau ar 11 Medi, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU, Theresa May, gyllid o fwy na £100 miliwn i ddatblygu cerbydau allyriadau isel a dim allyriadau yn y DU. Cynhaliodd Prif Weinidog y DU drafodaethau bord gron ar ddatblygu'r farchnad dim allyriadau a denu buddsoddiad tramor i'r DU ar ôl Brexit. Cyhoeddwyd datganiad rhyngwladol newydd, o'r enw "**Datganiad Birmingham**" hefyd, wedi ei lofnodi gan wahanol lywodraethau yn gwneud ymrwymiadau i ddyfodol dim allyriadau.

Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 18 Gorffennaf yn ystod **Cwestiynau Cymru, ail-bwysleisiodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Alun Cairns, ymrwymiad Llywodraeth y DU i beidio â defnyddio Fformiwla Barnett** i ddosbarthu cyllid amaethyddol ar ôl Brexit:

If I have said once, I have said 100 times that we will not be using the Barnett formula to distribute agricultural spend. Clearly, the current level of spend is the starting point, and we will be consulting in due course. The financial protection that the UK Government have given to Wales, whereby Wales now receives £120 for every £100 spent in England, demonstrates the priority that we put on protecting Wales's interests.

Ar 23 Awst a 13 Medi, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **nifer o nodiadau technegol** ar sut i baratoi ar gyfer Brexit os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Bwriedir i'r hysbysiadau hyn helpu busnesau a dinasyddion i gynllunio a pharatoi ar gyfer y fath sefyllfa. Mae nifer o'r nodiadau yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth a bwyd:

- **Taliadau fferm os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Derbyn arian datblygu gwledig os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Unioni camau masnach os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Masnachu gyda'r UE os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Dosbarthu eich nwyddau yn Nhariff Masnach y DU os nad oes cytundeb Brexit;**

- **Datblygu organeddau a addaswyd yn enetig (GMOs) os nad oes cytundeb Brexit; a**
- **Cynhyrchu a phrosesu bwyd organig os nad oes cytundeb Brexit.**

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi paratoi cyfres o **hysbysiadau parodrwydd** yn nodi goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol ymadawiad y DU â'r UE.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y **Bil Amaethyddiaeth** i Senedd y DU ar 12 Medi. Nod y Bil yw darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a sefydlu systemau newydd o gymorth amaethyddol a rheoli tir ledled y DU.

Ar gyfer Lloegr, bydd y Bil yn diddymu'n raddol y system bresennol o daliadau uniongyrchol ac yn sefydlu system rheoli tir amgylcheddol newydd. Bydd y system newydd yn darparu ffrwd incwm i ffermwyr a rheolwyr tir sy'n darparu nwyddau cyhoeddus sy'n helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer cyfoethogi cynefinoedd bywyd gwylt, atal llifogydd, gwella ansawdd aer, rheoli pridd a mawn, a phlannu coed. Bydd y dull newydd hefyd yn cynnwys cymorth i helpu busnesau fferm ddod yn fwy gwydn, cynhyrchiol a chystadleuol, gan gefnogi gwelliannau lles anifeiliaid y tu hwnt i'r sylfaen reoleiddiol, a bydd yn ceisio mynd i'r afael ag arferion masnachu annheg yn y gadwyn cyflenwi bwyd.

Er bod y Bil yn cyflwyno'r fframwaith ar gyfer polisi yn y dyfodol yn Lloegr, mae hefyd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymestyn i'r DU gyfan ac i wahanol rannau o'r DU. Mae hyn yn cynnwys Atodlen 3 sy'n pennu pwerau i Lywodraeth Cymru barhau i wneud taliadau i ffermwyr a rheolwyr tir ar ôl Brexit, i wneud newidiadau i gynlluniau presennol ac i weithredu cynlluniau newydd. Bwriedir i'r pwerau hyn fod yn gyfyngedig o ran amser tan i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Fil Amaethyddiaeth ei hun.

Ategir Bil Amaethyddiaeth y DU gan **nodiadau esboniadol** a **datganiad polisi Lloegr yn unig**.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru **ddatganiad ar y cyd ar Fframweithiau Amaethyddol** ar 12 Medi. Mae'r datganiad yn nodi nad yw Bil Amaethyddiaeth y DU yn cynnwys fframwaith deddfwriaethol sy'nadlewyrchu barn y llywodraethau y gellir rheoli mwyafrif llethol y meysydd polisi trwy gydgysylltu nad yw'n ddeddfwriaethol a rhynglywodraethol. Mae'r llywodraethau'n cynnig datblygu 'fframwaith gweinyddol' ar gyfer cydgysylltu gwariant ar gymorth amaethyddol a newidiadau i safonau marchnata. Mae fframweithiau eraill sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn cael eu trafod hefyd, fel ffermio organig, yn ogystal â threfniadau ar gyfer daliadau trawsffiniol.

Lles anifeiliaid

Ar 15 Awst, trosglwyddodd Llywodraeth y DU y dystiolaeth a gasglwyd o'i **galwad am dystiolaeth yngylch allforion byw a gwella lles anifeiliaid yn ystod cludiant** i'r Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC). Gofynnwyd i FAWC gynnal adolygiad o'r safonau cludiant presennol a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau ar gyfer yr adeg y bydd y DU yn gadael yr UE. Disgwylir adroddiad ac argymhellion FAWC yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Ynni a'r newid yn yr hinsawdd:

Mae **nodiadau technegol dim cytundeb** Llywodraeth y DU yn cynnwys nifer o hysbysiadau sy'n gysylltiedig ag ynni a'r newid yn yr hinsawdd:

- **Cyllid ynni Cyfleuster Cysylltu Ewrop os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Safonau allyriadau diwydiannol ('technegau gorau sydd ar gael') os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Hysbysu am allyriadau CO₂ ar gyfer ceir a faniau newydd os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Defnyddio a masnachu mewn nwyon fflworinedig a sylweddau sy'n teneuo'r osôn os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Rheoleiddio niuclear sifil os nad oes cytundeb Brexit;**
- **Ymchwil niuclear os nad oes cytundeb Brexit; a**
- **Rhedeg busnes olew neu nwy os nad oes cytundeb Brexit.**

Yn ei **araith ar 23 Awst ar gynllunio ar gyfer dim cytundeb**, dywedodd Dominic Raab, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, bod Llywodraeth y DU wedi llofnodi cytundeb diogelu niwclear newydd gyda'r Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol, ac wedi dod i Gytundeb Cydweithredu Niwclear dwyochnog gyda'r Unol Daleithiau.

Lansiodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar 30 Awst ar newidiadau i'r **cynllun Contractau ar gyfer Gwahaniaeth (CfD)**. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio rhagor o safbwytiau ar ymgynghoriad 2017 sy'n cynnig newidiadau i'r cynllun, yn enwedig o ran drafftiau diwygiedig o delerau ac amodau a newidiadau newydd sy'n gysylltiedig â Brexit i sicrhau bod y cynllun yn gweithredu'n dda ar ôl i'r DU adael yr UE.

Gwarchod natur

Mae cyfres **nodiadau technegol dim cytundeb** Llywodraeth y DU yn cynnwys hysbysiad ar **gynnal safonau amgylcheddol os nad oes cytundeb Brexit**.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd wedi paratoi cyfres o **hysbysiadau parodrwydd** nodi goblygiadau cyfreithiol ac ymarferol ymadawriad y DU â'r UE. Mae hyn yn cynnwys hysbysiadau ar yr amgylchedd gan gynnwys ar **fasnachu mewn rhywogaethau gwarchodedig**.

Fframweithiau'r DU

Gwnaeth Canghellor Dugiaeth Lancaster a Gweinidog Swyddfa'r Cabinet, David Lidington, ddatganiad ar **Ymgysylltu â'r Gweinyddiaethau Datganoledig** ar 23 Gorffennaf. Roedd hwn yn cynnwys diweddariad cryno ar waith fframweithiau'r DU gan nodi:

The UK Government will continue to seek legislative consent for Bills according to the established practices and conventions, listen to and take account of the views of devolved Administrations, and work with the Scottish Government, the Welsh Government and Northern Ireland officials on future legislation, just as we always have.

The UK Government and devolved administrations are also working together to amend laws that would not work appropriately when we leave the EU to ensure we have a fully functioning statute book.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru **ddatganiad ar y cyd ar Fframweithiau Amaethyddol** ar 12 Medi (gweler yr adran Amaethyddiaeth a Bwyd uchod).

4. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 17 Gorffennaf, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Mark Drakeford, i **Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol** mewn datganiad i'r Cynulliad. Dywedodd bod Llywodraeth y DU "wedi cymryd rhai camau sigledig i'r cyfeiriad [cywir]" (h.y. safbwyt Llywodraeth Cymru, sef cyfranogiad llawn yn y Farchnad Sengl ac aelodaeth o Undeb Tollau ond ei fod hefyd yn "gam... sylweddol o bosib". Dywedodd hefyd, "am bob ateb y mae'r Papur Gwyn yn ceisio ei roi, mae cyfres arall o gwestiynau yn codi".

Roedd Mark Drakeford yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ardal masnach rydd ar gyfer nwyddau, gan gynnwys nwyddau bwyd-amaeth, ac am yr angen i gysoni â rheolau penodol yr UE drwy lyfr rheolau cyffredin. Dywedodd y gallai'r cynigion ar gyfer tiriogaeth tollau cyffredin fod yn gam i'r cyfeiriad cywir, ond gofynnodd sut y byddai'r "cynigion tollau astrus" yn gweithio'n ymarferol. Gofynnodd hefyd sut y byddai'r DU yn darparu sicrwydd digonol i'r UE ynghylch safonau amgylcheddol a llafur, i sicrhau y caiff pawb ei drin yn yr un modd.

Dyweddodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod y papur yn gyfle a gollwyd i gynnig eglurder ynghylch materion mudo ac ail-bwysleisiodd safbwyt Llywodraeth Cymru, sef system sy'n "gydnaws â'r egwyddor o ryddid pobl i symud, ond lle bo cyswllt amlwg rhwng mudo a chyflogaeth".

Yn olaf, galwodd ar Brif Weinidog y DU i "ddatgan yn blaen mai bwriad y DU yw aros yn y farchnad sengl ar gyfer nwyddau a chynhyrchion amaethyddol, a pharhau mewn undeb tollau."

Ar 18 Gorffennaf, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, Lesley Griffiths, **bod gwaith ar y gweill** gyda Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i ddatblygu olynnydd i'r **Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod (2014-2020)**. Rhan o'r rhesymeg wrth ddatblygu'r cynllun nesaf yw "sicrhau bod ein diwydiant yn ddigon cryf a chadarn i oroesi ar ôl inni adael yr UE". Cyhoeddwyd y **deunydd ennyn diddordeb** ar wefan Bwyd a Diod Cymru.

Ar 23 Gorffennaf, gwnaeth y Prif Weinidog, Carwyn Jones, **araith mewn seminar NFU Cymru** yn Sioe Frenhinol Cymru. Pwysleisiodd unwaith eto yn ystod yr arraith ei farn bod mynediad llawn a dilyffethair at Farchnad Sengl yr UE a'r Undeb Tollau yn hanfodol i ddiwydiant amaethyddol Cymru. Ail-bwysleisiodd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn neilltuo cyllid ar gyfer amaethyddiaeth ac na ddylai trefniadau ariannu'r dyfodol gyda Llywodraeth y DU fod yn ddarostyngedig i Fformiwla Barnett.

Cyhoeddodd Lesley Griffiths **lythyr agored i ffermwyr Cymru** sy'n derbyn taliadau PAC ar 6 Medi i esbonio pam na fydd y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) yn parhau ar ôl Brexit. Mae'r **datganiad newyddion sy'n cyd-fynd â'r llythyr** yn datgan:

Yn sgil colli mynediad heb dariffau i farchnad yr UE a chystadleuaeth bosibl gan rannau eraill o'r byd unwaith y bydd y DU yn dechrau llofnodi Cytundebau Masnach Rydd bydd yn rhaid i ffermwyr Cymru gystadlu o fewn y farchnadle agored.

Nid yw Cynllun y Taliad Sylfaenol ar ei ffurf bresennol yn ddigon penodol ar gyfer ymateb i'r heriau hyn gan mai cynllun sy'n cefnogi incwm ydyw. Y ffordd gynaliadwy o gystadlu yw drwy wella cynhyrchiant, lleihau costau drwy sicrhau gwell effeithlonrwydd a llai o wastraff ac arallgyfeirio er mwyn diwallu anghenion y farchnad. Dyma'r meysydd y mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i roi sylw penodol iddynt drwy'r cynlluniau newydd a gaiff eu cynnig yn yr ymgynghoriad [**Brexit a'n Tir**, Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar bolisi amaethyddiaeth a rheoli tir ar ôl Brexit].

Cyhoeddodd Lesley Griffiths **ddatganiad ysgrifenedig** ar 12 Medi i gyd-daro â chyhoeddi Bil Amaethyddiaeth y DU. Cadarnhaodd yn y datganiad bod "pwerau i ddarparu'r sylfaen gyfreithiol i roi cymorth i ffermwyr yn y dyfodol, ar ôl Brexit" wedi eu cynnwys yn y Bil ar gais Llywodraeth Cymru. Bwriedir i'r pwerau fod yn rhai dros dro tan i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Bil Amaethyddiaeth ei hun. Disgwylir y Papur Gwyn ar gyfer Bil Cymru yn ystod gwanwyn 2019. Mae'r pwerau wedi eu cynnwys yn atodlen 3 Bil Amaethyddiaeth y DU, fel y trafodwyd uchod (adran Camau gweithredu eraill Llywodraeth y DU).

Mae'r pwersau, sy'n debyg i'r rhai ar gyfer Lloegr, yn cynnwys:

- Pwersau ariannol newydd ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol;
- Casglu a rhannu data;
- Pwersau i ymyrryd mewn amodau marchnad eithriadol;
- Pennu safonau marchnata; ac
- Addasu cyfraith yr UE a gedwir yn ymwneud â chyllido, rheoli a monitro taliadau i ffermwyr, gan gynnwys Cynllun Taliad Sylfaenol y PAC.
- Mae'r Bil hefyd yn cynnwys pwersau i alluogi cymorth i gymunedau gwledig a busnesau sy'n rhan o gadwyni cyflenwi.
- Er bod datganiad Lesley Griffiths yn pwysleisio cefnogaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru i Fil y DU, mae hefyd yn nodi dau faes nad yw'n cytuno â nhw.
- Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn anghytuno â Llywodraeth y DU ar i ba raddau y mae'r cymal yn ymwneud â Chytundeb WTO ar Amaeth y DU yn fater a gadwyd yn ôl. Mae'r datganiad yn pwysleisio'r berthynas gref rhwng pwersau'r WTO a chyfrifoldebau datganoledig ar gymorth amaethyddol, ac yn datgan:

Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau cytundeb pwysig gan Lywodraeth y DU i ymrwymo yn y Senedd i ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ar reoliadau sy'n gysylltiedig â'r WTO. Rydym hefyd wedi cytuno i ddod o hyd i broses ar gyfer sut y bydd rheoliadau o'r fath yn cael eu llunio. Fodd bynnag, mae ymrwymiad i ymgynghori yn annigionol o ystyried pwysigrwydd y mater hwn. Byddwn felly yn parhau i weithio tuag at gytundeb sy'n sicrhau bod cysylltiad priodol gyda safbwytiau Gweinidogion Cymru a gweinyddiaethau eraill ac ystyriaeth ohonynt.
- Yn ail, hoffai Llywodraeth Cymru weld pwersau yn ymwneud ag ailldosbarthu'r **Ardoll Cig Coch** yn cael eu cynnwys ar wyneb y Bil ac mae'n disgwyl gwelliant gan Lywodraeth y DU "i gywiro hyn cyn gynted â phosib".

Pysgodfeydd

Ar 2 Medi, teithiodd Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â dirprwytaeth o gynhyrchwyr bwyd môr o Gymru, i **Hong Kong ar gyfer Seafood Expo Asia**. Cefnogwyd y genhadaeth fasnach gan y prosiect Datblygu'r Farchnad Bwyd Môr, a dderbyniodd dros £1 filiwn yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Nod y ddirprwytaeth oedd archwilio cyfleoedd allforio ar gyfer cynnrych bwyd môr Cymru, i helpu'r diwydiant baratoi ar gyfer heriau a chyfleoedd ar ôl Brexit.

Fframweithiau'r DU

Ar 17 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bapur polisi Brexit diweddaraf, **Diwygio trefniadau ariannu a chodi cyllid y DU ar ôl Brexit.** O ran fframweithiau'r DU, mae'n dod i'r casgliad bod:

Rhaid i ddull newydd, seiliedig ar egwyddor, o edrych ar rwydweithiau ariannu a chodi cyllid gael ei ddatblygu yn y DU, wedi'i osod o fewn Cy-tundeb Cyllidol newydd sydd wedi'i ddatblygu wrth ochr fframweithiau eraill y DU ar ôl ymadael â'r UE

Ar 17 Gorffennaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog **raglen deddfwriaethol**.

Llywodraeth Cymru. Dywedodd:

Rydym yn gwybod mai'r flwyddyn o'n blaenau fydd un o'r prysuraf o ran deddfwriaeth ers i Gymru gael pwerau deddfu sylfaenol. Wrth i'r DU baratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd, bydd yna swm sylweddol o waith i'r Cynulliad hwn ymgymryd ag ef rhwng nawr a mis Mawrth os ydym am gael llyfr statud cwbl weithredol wrth inni ymadael. Bydd hwn yn gyfnod heriol ac ni ddylid tanamcangyfrif y llwyth gwaith deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â gadael yr UE.

Bydd angen i'r Cynulliad ymdrin â rhaglen sylweddol o gywiros rheoliadau o dan y Ddeddf tynnu'n ôl o'r UE rhwng mis Hydref a mis Mawrth. Byddwn yn parhau i adolygu'r angen ar gyfer Biliau sy'n gysylltiedig â Brexit dros y 12 mis nesaf, ac mae'n debygol y bydd angen cydsyniad y Cynulliad hwn ar nifer o Filiau Brexit y DU. Cyn belled ag y bo modd, ni ddylem ganiatáu i'r llwyth gwaith Brexit hwn gyfyngu ar ein huchelgeisiau deddfwriaethol, ond mae'n rhaid inni fod yn hyblyg ac yn barod i addasu ein rhaglen deddfwriaethol pe bai'r angen yn codi.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru **ddatganiad ar y cyd ar**

Fframweithiau Amaethyddol ar 12 Medi (gweler yr adran Amaethyddiaeth a Bwyd uchod).

5. Camau gweithredu Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon

Amaethyddiaeth a bwyd

Ar 2 Awst, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi Wledig, Fergus Ewing, i sylwadau Michel Barnier ar Ddangosyddion Daearyddol (gweler yr adran Trafodaethau rhwng y DU a'r UE uchod) gan ddweud bod **cynnal Dangosyddion**.

Daearyddol cyfredol yr Alban ar ôl Brexit yn hanfodol:

We have been pressing UK Government to agree a need for a UK GI System post-Brexit from the outset and, while we welcome confirmation in their White Paper of the plans to do so, there remains a question over maintaining the existing protection currently enjoyed by our producers within the EU through the mutual recognition of our protected products.

Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban bapur trafod ar 30 Awst ar **Swyddogaeth yr Alban yn natblygiad trefniadau masnach y DU yn y dyfodol** ar ôl Brexit.

Cyhoeddodd Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon ymgynghoriad ar **bolisi amaethyddol ôl-Brexit** ar 1 Awst. Mae'r ymgynghoriad yn cynnig dull sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau (yn hytrach na dull sy'n seiliedig ar ragnodi) sy'n rhoi swyddogaeth i reolwyr tir yn y gwaith o gyd-ddylunio camau gweithredu a mwy o ryddid o ran sut i gyflawni canlyniadau amgylcheddol. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 10 Hydref.

6. Camau gweithredu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Amaethyddiaeth a bwyd

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig **Sesiwn graffu ar Brexit** gyda Lesley Griffiths ar 18 Gorffennaf. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod y sesiwn:

- Bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cael Deddf Amaethyddiaeth Cymru newydd ar waith cyn diwedd y Cynulliad hwn. Mae hefyd wedi ceisio cynnwys darpariaethau penodol ym Mil Amaethyddiaeth y DU (a gyhoeddwyd ar 12 Medi) sy'n rhoi pwerau i weithredu rhannau o'i pholisi amaethyddol ôl-Brexit arfaethedig - **Brexit a'n tir** - ac i ddarparu taliadau ar ôl 2020. Y bwriad yw i'r pwerau sydd wedi eu cynnwys yn Nedd y DU gael eu cydgrynhai yn Nedd Cymru, ac i'r cyfnod pontio i'r cynllun newydd gael ei gwblhau erbyn 2025.
- Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i ddangos pwysigrwydd milfeddygon cymwysedig yr UE i'r sector hylendid cig yng Nghymru. Mae Prif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru yn aelod o fwrdd y **Prosiect Gallu a Chapasiti Milfeddygol** ynghyd â chymheiriaid o weinyddiaethau eraill y DU, Coleg Brenhinol y Milfeddygon a Chymdeithas Milfeddygol Prydain. Nod y prosiect yw datblygu gweithlu milfeddygol sy'n diwallu anghenion y DU ar ôl Brexit.
- Mae hi'n gobeithio y bydd cynhyrchion bwyd Cymru yn gallu cadw statws dangosydd daearyddol yr UE ar ôl Brexit, er bod Llywodraeth y DU yn ffafrio cynllun ar gyfer y DU.

Pysgodfeydd

Yn ystod **Sesiwn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig gyda Lesley Griffiths ar 18 Gorffennaf**, fe'i holwyd am gynlluniau ar gyfer Bil Pysgodfeydd Cymru a fydd yn cael ei gyflwyno. Ymatebodd:

I would imagine the fisheries Bill I will be looking to go out to consultation on towards the end of this year, maybe early next year, in preparation. So, it's a bit hard to tell you what a future fisheries Bill will look like at the moment.

Gofynnwyd iddi roi sylw i bryderon ynghylch adnoddau digonol o fewn Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran arbenigedd cyfreithiol i'w galluogi i ddarparu deddfwriaeth pysgodfeydd lwyddiannus a chynaliadwy yn y dyfodol:

There's no point pretending; we have concerns about legal capacity—you can't pick lawyers off trees ... I think we've currently recruited several new lawyers, and my portfolio—because of the amount of Brexit legislation within it, I hope that I will get the majority of them. Fisheries is an area where, as soon as I came into portfolio, we increased the capacity of the team. I also put aside, I think it was about £6 million, £7 million over two years to get new enforcement vessels. So, we're having three large vessels, and three RIBs. I've launched one RIB; the other four will be in use, hopefully, by the end of the year. **Because, clearly, enforcement is going to be much more of an issue. There's no point pretending the Government isn't facing significant capacity and resource issues.** [Pwyslais y Gwasanaeth Ymchwili]

O ran sicrwydd ynghylch cyllid ar gyfer y sector pysgodfeydd yn y dyfodol, fe'i cymharwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet eglurder ynghylch cyllid amaethyddol, gan ei alw'n dwll du. Aeth yn ei blaen i ddweud:

We've had no clarity, really, around funding. So, we keep making it clear that we shouldn't be losing any funding—they promised we wouldn't lose any funding, and we're going to hold them to that promise. The European maritime fisheries fund [EMFF] offers a discretionary grant to fishers to adapt to policy changes, which are largely driven by the common fisheries policy. The fishing industry doesn't receive any financial support to undertake activity—that's the reason for the EMFF. And, as I said, I will be consulting on future fisheries policy later this year, early next year, and this will be part of the consultation.

Gwarchod natur

Yn ystod y sesiwn graffu, trafododd Ysgrifennydd y Cabinet y bwlch llywodraethu amgylcheddol yn dilyn Brexit:

So, officials are undertaking an analysis now of the gaps that we have, and what potential models we will require to address those gaps going forward. Again, it's not an easy task. It's taken a considerable amount of work to be able to understand all the complexities that we've got in relation to this issue. [...]

It's probably a little bit too early to state whether we think a UK governance body is the most appropriate approach to address those gaps. I think we need to have a much better understanding of their [Defra's] proposals, which they've not shared with us to the extent that they would need to.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 14 Medi i adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar gorff llywodraethu amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol ar ôl Brexit. O safbwynt cwmpas daearyddol, dywed Lesley Griffiths yn yr ymateb nad yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ai fyddai corff llywodraethu DU gyfan neu gorff penodol i Gymru fyddai fwyaf priodol. Mae'n esbonio bod angen dealltwriaeth lawn o'r materion a'r bylchau penodol yng Nghymru yn gyntaf yn ogystal â chyfle i weld cynigion Llywodraeth y DU cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen. Mae'n amlygu bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal ei dadansoddiad ei hun o'r bylchau llywodraethu. Dywedodd y bydd yn cynnig diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl i benderfyniad arfaethedig gael ei wneud.

Fframweithiau'r DU

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig **Sesiwn graffu ar Brexit** gyda Lesley Griffiths ar 18 Gorffennaf. O ran fframweithiau'r DU a'r ymarferion dwys (ymarferion i benderfynu sut y bydd fframweithiau'r DU yn gweithio), dywedodd bod trafodaethau yn symud ymlaen at ail gam yn ystyried union gwmpas a ffurf unrhyw fframweithiau yn y dyfodol. Aeth Cyfarwyddwr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Tim Render, yn ei flaen i ddweud:

what the deep dives have done is really narrow down to quite specific areas where you need frameworks within, say, agricultural support, which is a very big idea. It actually came to about three or four areas where you needed legislation.

O ran fframweithiau lles anifeiliaid, dywedodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru, Dr Christianne Glossop:

what we were able to do was map out the framework that we have in place already. So, for example, there's something called the animal disease policy group, which is across the whole UK, and that's where we come together and try and reach a consensus to advise our respective Ministers [...] when it comes to animal health and welfare, that will be a piece of the new framework going forward [...]

O ran dulliau rhynglywodraethol a'r 'Cyngor Gweinidogion' arfaethedig, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

at the last JMC plenary that the First Minister attended [in March] [...] the officials were given a remit [...] to have a look at the existing arrangements and the mechanisms that are currently in place to have those effective inter-governmental relations. I understand the review is under way. I think, at the next meeting [...] they were going to consider whether they have had this going forward.

Dyweddodd Lesley Griffiths fod rhanddeiliaid yn orbryderus ynglych newid agwedd tybiedig at gyfawnhadau economaidd yn hytrach na rheoli adnoddau cyffredin neu heriau amgylcheddol.

Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ei ymchwiliad i **Fframweithiau cyffredin ar gyfer yr amgylchedd ar ôl Brexit** ar 24 Gorffennaf. Mae Llywodraeth Cymru **wedi ymateb i'r adroddiad**. Mae Lesley Griffiths yn tynnu sylw at y ffaith y bydd datblygu fframweithiau'r DU yn ffurf gwbl newydd o ddatblygiad polisi traws-weinyddol. Meddai:

Bydd y dull a ddefnyddir gan y pwyllgorau perthnasol o bob deddfwrfa i graffu arnynt ar y cyd yn rhywbeth a allai alw am ddull newydd o graffu ar y cyd.

7. Camau gweithredu eraill gan y Cynulliad Cenedlaethol

Amaethyddiaeth a bwyd

Cafwyd **dadl Cyfarfod Llawn** ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; **Gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel.** Dywedodd Jenny Rathbone, AC:

Ond mae angen inni nodi eu bod [mewnfudwyr Ewropeaidd] yn all-weddol ar gyfer cynaeafu ffrwythau a llysiau, edrych ar ôl anifeiliaid mewn lladd-dai, yn y ffatrioedd prosesu—yn wir, ym mhob agwedd ar y gadwyn fwyd. Mae angen inni boeni sut y cawn bobl eraill yn eu lle pe bai'r mewnfudwyr Ewropeaidd hyn yn diflannu.

8. Camau gweithredu gan Senedd y DU

Ansawdd aer

Ar 18 Gorffennaf, **wrth roi dystiolaeth** i Bwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin, cadarnhaodd Prif Weinidog y DU y byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil amgylcheddol, ac y bydd aer glân yn rhan o'r Bil hwnnw. Dywedodd y Prif Weinidog bod Llywodraeth y DU yn credu:

that an environment Bill that includes clean air, but also includes some of the opportunities that we think will be available to us after we leave the European Union in this area of protection of the environment is the right way.

Amaethyddiaeth a bwyd

Lansiodd Pwyllgor EFRA Tŷ'r Cyffredin **ymchwiliad i'r cwmpas, y darpariaethau a'r pwerau a gynigir ym Mil Amaethyddiaeth y DU** ar 12 Medi. Daw cyfnod yr ymchwiliad i ben ar 8 Hydref.

Lles anifeiliaid

Ystyriwyd y Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Gorffennaf. Cynigiwyd gwelliant a fyddai â'r nod o sicrhau nad yw safonau lles anifeiliaid, diogelwch bwyd a diogelu'r amgylchedd y DU yn cael eu tanseilio gan fewnforion a gynhyrchrir i safonau is. Gwrthodwyd y gwelliant. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i'r Bil ar 13 Medi.

Ynni a'r newid yn yr hinsawdd:

Ysgrifennodd Is-bwyllgor Ynni ac Amgylchedd yr UE at y Gweinidog Busnes a Diwydiant, Richard Harrington, ar 18 Gorffennaf yn dilyn sesiwn dystiolaeth gyda'r Swyddfa dros Reoli Niwclear a ystyriodd eu hymdrehchion i baratoi ar gyfer Brexit. Gofynnodd yr Is-bwyllgor am eglurhad pellach ar drefniadau ariannu'r Swyddfa dros Reoli Niwclear yn y dyfodol, a gofynnodd am ddiweddarriad rheolaidd tan yr adeg ymadael i sicrhau bod paratoadau'r Swyddfa dros Reoli Niwclear yn parhau ar y trywydd iawn. Gofynnodd yr Is-bwyllgor hefyd am ddiweddarriad ar drafodaethau ynghylch y Cytundebau Cydweithredu Niwclear arfaethedig gydag UDA, Canada, Japan ac Awstralia.

Pysgodfeydd

Rhoddodd George Eustice **dystiolaeth i Bwyllgor EFRA Tŷ'r Cyffredin** ar 17 Gorffennaf yn rhan o'i ymchwiliad pysgodfeydd. Fe'i holwyd ynghylch sut y bydd newidiadau posibl i'r trefniadau pysgodfeydd a masnachu bwyd môr rhwng y DU a'r UE yn effeithio ar bysgotwyr, proseswyr bwyd môr, defnyddwyr, cymunedau arfordirol a'r amgylchedd.

Rhoddodd dystiolaeth bellach i'r Pwyllgor **ar 5 Medi**, pan gafodd ei holi ar drafodaethau'r UE ar bysgodfeydd, heriau sy'n wynebu'r diwydiant, a Bil Pysgodfeydd y DU a fydd yn cael ei gyflwyno.

Bu gwrthdaro rhwng llongau o'r DU a Ffrainc ar 28 Awst yn yr hyn y cyfeiriwyd atynt fel "rhyfeloedd cregyn bylchog". **Digwyddodd hyn** ym Mae Seine, oddi ar arfordir Normandi, lle mae diwydiant pysgota Ffrainc wedi ei rwymo gan **gytundeb** gyda Llywodraeth Ffrainc i beidio â physgota am gregyn bylchog yn yr ardal rhwng mis Mai a mis Hydref, er mwyn gwarchod stociau pysgod. Nid yw'r Prydeinwyr - sydd hefyd yn cael pysgota'r ardal o dan hawliau mynediad yr UE – wedi eu rhwymo gan unrhyw gyfyngiadau o'r fath gan Lywodraeth y DU.

Cytunodd Prydain a Ffrainc i 'egwyddorion cytundeb' ar 5 Medi lle na fyddai llongau'r DU yn pysgota yn yr ardal, yn gyfnewid am becyn iawndal.

Cyflwynodd George Eustice **ddatganiad gweinidogol** ar 13 Medi yn cynnig diweddarriad ar Bysgota am Gregyn Bylchog ym Mae Seine. Meddai:

The UK Industry does not believe that the compensation package proposed by the French fishing industry provides sufficient recompense for their projected loss of earnings, and is therefore rejected it on that basis... as a result the talks have broken down and there remains no agreement at all.

Ar 12 Medi yn ystod **Cwestiynau i'r Prif Weinidog**, holodd David Duguid, AS am gefnogaeth i bysgodfeydd yn ystod cyfnod pontio Brexit. Ymatebodd Prif Weinidog y DU:

I fully recognise the importance of the fishing industry to my hon. Friend's constituency and to other constituencies represented in this House. I reassure him that we want to secure a sustainable and profitable fishing industry that will regenerate coastal communities and support future generations of UK fishermen. Leaving the EU means taking back control of our waters, setting our own fisheries rules and exclusively determining who fishes what in our seas. It is a priority of the Government to make sure that we have an innovative, productive and competitive food supply chain. Work is under way to consider the long-term future of all funding programmes that are currently managed by the EU.

Gwarchod natur

Ystyriwyd Bil Masnach y DU yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Gorffennaf. Cyflwynodd ASau **gyfres o welliannau** (PDF 292KB) i'r Bil gyda'r nod o ddiogelu safonau amgylcheddol mewn cytundebau masnach rhyngwladol yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys gwelliant a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i weinidogion gomisiynu asesiad effaith cynaliadwyedd cyn cychwyn trafodaethau masnach newydd. Byddai gwelliant arall yn caniatáu i Lywodraeth y DU ddod i gytundebau masnach newydd dim ons os ydynt yn cynnwys ymrwymiad i gynnal a diweddu safonau amgylcheddol cyfredol trwy gymal 'dim atchweliad'. Gwrthodwyd y gwelliannau hyn.

Cyhoeddodd Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol Tŷ'r Cyffredin ei adroddiad ar **Cynllun 25 mlynedd y Llywodraeth ar gyfer yr Amgylchedd** ar 18 Gorffennaf. Mae'n mynd i'r afael â llywodraethu, egwyddorion a thargedau amgylcheddol ar ôl Brexit. Mae'r adroddiad yn argymhell y dylai'r Cynllun 25 mlynedd gael ei roi ar sail statudol. O ran cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer corff gwarchod amgylcheddol ar ôl Brexit, dywed yr adroddiad bod y cynigion yn methu ag ailadrodd neu adeiladu ar y rhan y mae sefydliadau'r UE yn ei chwarae i warchod amgylchedd y DU. Mae'n argymhell y dylai'r corff llywodraethu graffu ar y cynllun 25 mlynedd trwy strwythur o dargedau pum mlynedd sy'n rhwymo mewn cyfraith.

Cyflwynodd Prif Weinidog y DU **dystiolaeth i Bwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin** (PDF 419KB) ar Fil Amgylcheddol disgwyliedig y DU ar 18 Gorffennaf. Dywedodd y Prif Weinidog na fydd y DU yn gostwng ei safonau amgylcheddol yn sydyn os ceir Brexit "dim cytundeb" gan fod Llywodraeth y DU dal i fod wedi ymrwymo i adael yr amgylchedd mewn gwell wladriliaeth na'i canfuwyd ganddi.

Fframweithiau'r DU

Cafwyd dadl ar '**Gryfhau'r Undeb**' yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Gorffennaf. Ystyriodd y ddadl gysylltiadau a strwythurau rhynglywodraethol, system fwyd y DU, amaethyddiaeth a physgodfeydd. Cyhoeddodd Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin **becyn dadl** cyn y ddadl.

9. Ffynonellau allweddol eraill

Amaethyddiaeth a bwyd

Prifysgol Caerdydd, ***Feeding Britain: Food Security after Brexit***, Gorffennaf 2018

European Centre for International Political Economy, ***The UK's First International Trade Negotiation – Agriculture at the WTO***, Gorffennaf 2018

Food Research Collaboration, ***Feeding Britain: Food Security after Brexit***, Gorffennaf 2018

Cyfeillion y Ddaear, ***Agriculture Bill must make countryside safe for wildlife***, Medi 2018

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Brexit: UK agriculture policy***, Medi 2018.

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***What if there's no Brexit deal?*** Medi 2018

Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Y sector bwyd-amaeth***, Gorffennaf 2018

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU), ***UK: A Nation United by Food***, Medi 2018

NFU Cymru, ***Newyddion Brexit***

Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe), ***Risk Management in Agriculture***, Gorffennaf 2018

SPICE, ***Post-Brexit plans for agriculture***, Medi 2018

UK in a Changing Europe, ***Cost of No Deal Revisited***, Medi 2018

UK in a Changing Europe, ***Flags on food? why the fuss?***, Awst 2018

UK in a Changing Europe, ***The Brexit white paper: what it must address – agriculture***, Gorffennaf 2018

Llywodraeth Cymru, ***Ymgynghoriad Brexit a'n Tir: Feithiau chwalu mythau***, Medi 2018

Lles anifeiliaid

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Animal Sentience and Brexit***, Awst 2018

UK in a Changing Europe, ***Horsing around? British vets want reassurance of frictionless border***, Gorffennaf 2018

Ynni a'r newid yn yr hinsawdd:

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Brexit: energy and climate change***, Medi 2018

Cyd-bwyllgor Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr Tai'r Oireachtas, ***Report on Climate Change and Sustainability in the Agriculture and Food Sectors***, Gorffennaf 2018

Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Y Berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y Dyfodol: Ynni***, Awst 2018

Pysgodfeydd

Greener UK, ***A case for fish as a public resource and part of the wider marine ecosystem***, Gorffennaf 2018

Greener UK, ***Brexit related briefings***

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Government policy on visas for non-EEA workers on inshore fishing vessels***, Gorffennaf 2018

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Fisheries: Brexit Negotiations***, Medi 2018

Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Pysgodfeydd*** Awst 2018

UK in a Changing Europe, ***The Brexit white paper: what it must address – fisheries***, Gorffennaf 2018

Morol

Greener UK, ***Brexit related briefings***

Cyswllt Amgylchedd Cymru, ***Briefing on Brexit & European Marine Sites***, Gorffennaf 2018

Gwarchod natur a chyhoeddiadau trawsbynciol eraill ar ddiogelu'r amgylchedd

Rhwydwaith academaidd Brexit and Environment, ***Environmental principles and governance: Brexit and Environment's key messages***, Awst 2018

Rhwydwaith academaidd Brexit and Environment, ***The Brexit White Paper: What does it mean for the environment?***, Gorffennaf 2018

Rhwydwaith academaidd Brexit and Environment, ***Delivering a 'Green Brexit': A summary of academic evidence to Defra's environmental governance consultation***, Medi 2018

Rhwydwaith academaidd Brexit and Environment, ***What is the future of environmental governance in Northern Ireland?***, Awst 2018

ENDS Report, ***Brexit Library: live table***, (mae angen tanysgrifiad)

Cyfeillion y Ddaear, ***Are we on track for a green Brexit?***, Awst 2018

Greener UK, ***Brexit related briefings***

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Brexit and the Environment***, Awst 2018

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, ***Water quality***, Gorffennaf 2018

Sefydliad Materion Cymreig, ***A Green Brexit?*** Awst 2018

Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Y Berthynas rhwng y DU a'r UE yn y Dyfodol: Diogelu'r Amgylchedd***, Gorffennaf 2018

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ***DEFRA - Progress in Implementing EU Exit***, Medi 2018

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, ***Can Brexit bring a better way to protect the environment?***, Awst 2018

